O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 869 (Cy. 151)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Carew Cheriton, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

Gwnaed	*15 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*18 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A477, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**.**

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Carew Cheriton, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Gorffennaf 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dileu Cyfyngiadau

3. Bydd y darn o'r gefnffordd sy'n cynnwys system gylchu Cylchfan Carew Cheriton yn Sir Benfro yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru